

# Gwella llythrennedd digidol ymhlith pobl anabl

## Llinell Gyntaf

Mae mynediad at dechnoleg ddigidol yn anwastad, a'r sawl y gellid dadlau y mae ganddynt fwyaf i'w ennill o ddefnyddio gwasanaethau digidol sydd aml leiaf tebygol o allu gwneud hynny. Canfu Llywodraeth Cymru mai dim ond 79 y cant o bobl a chanddynt salwch, anabledd neu lesgeidd cyfyngol hir sefydlog sy'n defnyddio'r rhyngwrwd, o gymharu â 93 y cant o bobl heb gyflwr o'r fath<sup>1</sup> - mae angen unioni'r anghydwysedd hwn.<sup>1</sup>

## Prif Ofynion:

Rydym yn galw ar bob plaid wleidyddol i ymrwymo i:

- Gynyddu'r arian a ddarperir ar gyfer hyfforddiant, offer TGCh a Wi-Fi ar gyfer pobl anabl yng Nghymru i wella cynhwysiant digidol a mynd i'r afael ag unigrwydd ac unigedd.

## Cyd-destun:

Rhan bwysig o'r ymateb i coronafeirws oedd y defnydd o wasanaethau ar-lein. Mae mwy o bobl yn gweithio gartref, ac mae mwy o wasanaethau cyhoeddus fel addysg a gofal iechyd yn cael eu darparu ar-lein. Mae technoleg ddigidol hefyd yn cynnig ateb hollbwysig i'r ymdeimlad o unigrwydd ac unigedd a grëwyd gan y gwarchae.

Ond mae mynediad at dechnoleg ddigidol yn anwastad, a'r sawl y gellid dadlau y mae ganddynt fwyaf i'w ennill o ddefnyddio gwasanaethau digidol sydd aml leiaf tebygol o allu gwneud hynny.

Er tegwch, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i:

- Ddarparu arian i brynu o leiaf 1000 peiriant tabled newydd ar gyfer amgylcheddau iechyd a gofal, gyda'r bwriad o ddanfôn y peiriannau i gartrefi gofal, hosbisau a wardiau;
- Cefnogi gwasanaeth fideo ymgynghoriad GIG Cymru, sy'n cael ei gyflwyno'n gyflym ar draws GIG Cymru;
- Darparu £3 miliwn i gefnogi dysgwyr a eithriwyd yn ddigidol, gan gyfarwyddo awdurdodau lleol i ddefnyddio'r arian i ddarparu teclynnau ysgol wedi'u hail-bwrpasu a chysylltedd 4G MiFi ar gyfer dysgwyr a eithriwyd yn ddigidol.<sup>2</sup>

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru, Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19: Defnyddio'r rhyngwrwd a sgiliau digidol, <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-09/internet-use-and-digital-skills-national-survey-wales-april-2018-march-2019-207.pdf>

<sup>2</sup> Robin Wilkinson (Gwasanaeth Ymchwil Y Senedd), Yn fyr: Coronafeirws: cynhwysiant digidol, <https://seneddresearch.blog/2020/05/19/coronavirus-digital-inclusion/>

Fodd bynnag, mae angen i'r camau hyn fynd ymhellach.

### **Gwybodaeth gefndir**

Mae pobl anabl wedi sôn wrthym ni<sup>3</sup> am werth:

- Hyfforddiant er mwyn codi hyder gyda thasgau ariannol, megis siopa bwyd ar-lein; adnabod sgamiau posib; cadw'n ddiogel ar-lein a rhoi gwybod am droseddau casineb ar-lein;
- Darparu offer TGCh 'i'w fenthyca' fel y gall unigolion werthuso'n well pa offer sy'n gweddu i'w hanghenion;
- Darparu llwybrwyr Wi-Fi 'i'w benthyca' fel y gall unigolion nad ydynt wedi defnyddio technolegau digidol yn y gorffennol gael cyfle i roi cynnig arnynt, a phoeni llai am wneud hynny.

<sup>3</sup> Yn bennaf trwy adborth i'n rhaglen yn Abertawe, Go-Digital.